# Rhaglen Gyflawn

| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| Dyddiad ac Amser | **5.15 y.h. Dydd Iau, 15fed Hydref, 2015** |
| Lleoliad | **Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE** |
| Pwynt Cyswllt | **Bethan Adams 01286 679020**<br>**BethanAdams@gwynedd.gov.uk** |

**Rhaglen**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** | |
| **2.** | **CYNLLUN PRYNU'N LLEOL** | |
| **3.** | **RHAGLEN WAITH Y GWASANAETH ADFYWIO CYMUNEDOL - ARDAL DWYFOR** | 1 - 5 |
| **4.** | **MONITRO A GORFODAETH SAFLEOEDD CARAFANAU** | 6 - 9 |

*Dymunir atgoffa aelodau o'u cyfrifoldeb i wneud penderfyniad eu hunain ynglŷn â'r angen i ddatgan buddiant ac i adael y cyfarfod.*

Dosbarthwyd Dydd Llun, 12 Hydref 2015

## AELODAU

## Y CYNGHORWYR

Stephen W. Churchman
Anwen J. Davies
Aled Ll. Evans
Gweno Glyn
Simon Glyn
E. Selwyn Griffiths
Alwyn Gruffydd
John Brynmor Hughes
Sian Wyn Hughes
Jason Humphreys
Michael Sol Owen
Peter Read
W. Gareth Roberts
Angela Russell
Eirwyn Williams
Gruffydd Williams
Owain Williams
R. H. Wyn Williams

**Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol - Ardal Dwyfor**

**Swyddog: Alys Lloyd Jones** **Wedi diweddaru: Medi 2015**

**Ymateb i Gyfle**

| Prosiect Strategol / Cyfle Lleol | Enw'r Mudiad (a chyfeiriad e bost) | Teitl y prosiect | Wedi Gwneud | I'w Wneud | Mesuryddion Perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfle Lleol** | **Amgueddfa Forwrol Llŷn** **meinir.pj@tiscali.co.uk** | **Canolfan Dreftadaeth Amgueddfa Forwrol Llŷn** | Prosiect Byd y Plant sy'n gysylltiedig â dathliad gwaith awdures Elisabeth Watkin Jones: Cais am arian ychwanegol [£146,800] i Gronfa Dreftadaeth Loteri ar gyfer gwaith ychwanegol wedi llwyddo + Cais llwyddiannus i Gronfa'r Degwm am £2701. | Cefnogi'r mudiad gyda materion ariannol, hawliadau, gwerthuso a datblygol. | |
| **Cyfle Lleol** | **O Ddrws i ddrws** **oddrwsiddrws@yahoo.co.uk** | **Datblygu gwasanaeth bws arfordirol o gwmpas atyniadau twristiaeth dros yr Haf a chysylltu gyda'r Llwybr arfordirol ac atyniadau treftadaeth** | Cais Santander a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Prosiect Adran Rheoleiddio gyda Chronfa Cymunedau Arfordirol hefyd yn cyfrannu at y gwasanaeth Cefnogaeth i gais ariannol i'r sector breifat. | Cefnogi'r mudiad hefo materion gweithredu'r prosiect a hyrwyddo'r gwasanaeth yn lleol a materion datblygol. Edrych ar Raglen Leader i adnabod cyfleoedd arloesol posib i hyrwyddo'r prosiect a chynaladwyedd y gwasanaeth hir dymor. | |
| **Cyfle Lleol** | **Cymydmaen Cyf** **WilParry@Outlook.com** | **Marchnad Cynnyrch Llŷn** | Cais llwyddiannus wedi'i gyflwyno i AHNE tuag at sefydlu Marchnad Cynnyrch yn Neuadd Sarn. Cais Arian i Bawb tuag at ddigwyddiadau ffair gymunedol i adeiladu ar y farchnad wedi llwyddo. | Cefnogi'r mudiad hefo prosiectau datblygol a cheisiadau ariannol. Trafod rhaglen waith, swydd ddisgrifiad a chostau'r cynllun, a thargedu cyllidwyr lleol a chenedlaethol. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Trefnu cyfarfod gyda Rhaglen Leader, Menter Môn. | |
| **Cyfle Lleol** | **Prosiect Plas Carmel** **alundwyros@btinternet.com** | **Cynllun i adfer Capel, Tŷ Capel a hen siop gan gyfuno hanes, diwylliant a'r amgylchedd lleol** | Wedi llunio briff pensaernïol a denu grant AHNE a CBC ar gyfer gwaith rhagarweiniol gan Bensaer. Wedi cefnogi'r gwaith ymgysylltu a rhoi sylwadau ar adroddiad y pensaer. | Cyflwyno ceisiadau ariannol i gronfeydd perthnasol. Edrych ar botensial atgyweirio'r siop / addasu'r ardd fel prosiect hyfforddiant. | |
| **Cyfle Lleol** | **Pwyllgor Adfywio Llithfaen** **sianelen@live.co.uk** | **Cynllun datblygu'r pentref ac adnoddau lleol.** | Astudiaeth dichonoldeb wedi ei gynhyrchu gydag Adeilad Capel Isaf Llithfaen. Cais i ddatblygu Canolfan Mentergarwch wedi'i gyflwyno i Raglen 'CAT' ac wedi ei dynnu yn nol gan fod yr Henaduriaeth yn dymuno gwerthu'r safle yn hytrach na phrydlesu. | Cefnogi'r grŵp i ymchwilio ymhellach i'r galw a'r angen am wasanaethau a chyfleusterau megis unedau gwaith a chyfleoedd ar gyfer unedau hunangynhaliol i ymwelwyr a cherddwyr. | |
| **Cyfle Lleol** | **Cymdeithas Masnachwyr a Thwristiaeth Abersoch a'r Cylch** **helen@presentthoughts.co.uk** | **Wedi deillio o'r Cynllun gweithredu ar gyfer prosiectau lleol.** | Cais llwyddiannus am arweinlyfr i hyrwyddo atyniadau a digwyddiadau yn Llŷn wedi ei gyflwyno i AHNE. Cais llwyddiannus am swyddog i gefnogi gwirfoddolwyr wedi ei gyflwyno i CBC, Mantell. | Cefnogaeth i ddatblygu/diweddaru'r Cynllun gweithredu Cefnogi'r grŵp gyda cheisiadau tuag at ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn. | |
| **Cyfle Lleol** | **Plas Heli** **plasheli.david@gmail.com** | **Digwyddiadau a gweithgareddau awyr agored** | Cais llwyddiannus wedi ei gyflwyno i AHNE tuag at y Triathlon Pwllheli a Sportif Arfordirol Llŷn. | Cefnogi'r mudiad gyda chais Cronfa Loteri Fawr ar gyfer cydlynydd gwirfoddolwyr a gweithgareddau dros gyfnod o dair blynedd. | |
| **Cyfle Lleol** | **Antur Aelhaearn Llanaelhaearn** **lynda.cox@llanaelhaearn.com** | **Datblygu Capel Babell fel adnodd lleol** | Gan fod darpariaeth hyfforddiant wedi adleoli mae angen i'r Grŵp ail ystyried argymhellion astudiaeth | Angen diweddaru'r cynllun busnes. Cefnogi'r grŵp i adnabod | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | busnes. Cais wedi ei gyflwyno i CBC tuag at ail doi'r adeilad fel gwedd 1 o'r prosiect- aflwyddiannus | ffordd amgen ymlaen. | |
| **Cyfle Lleol** | **Hendragarreg** **jina.geraint@gmail.com** | **Sefydlu Canolfan i ddehongli'r diwydiant Llithfaen ynghyd a chyfleoedd eraill yn Eglwys Sant Siôr, Trefor** | Grŵp wedi denu grant i gynnal diwrnod agored i ymgynghori a'r gymuned. | | |
| **Cyfle Lleol** | **Breuddwydion Bro Madog** **angharadab@hotmail.com** | **Parc Pawb, Bodawen, Porthmadog** | Briff wedi'i lunio ar gyfer pensaer tirlun a phrisiau wedi eu derbyn. | Cefnogaeth gyda Cais CBC. | |
| **Cyfle Lleol** | **Ras y Cob** **Peteben@hotmail.co.uk** | **Gwella cynaladwyedd Ras y Cob** | Cais llwyddiannus wedi'i gyflwyno i CDG i wella cynaladwyedd y digwyddiad. | | |
| **Cyfle Lleol** | **Ymddiriedolaeth Ynys Enlli** **RichardJamesFarmer@gwynedd.gov.uk** | **Gwarchod treftadaeth Ynys Enlli** | Wedi edrych ar ffynonellau posib i wella isadeiledd, mynediad, creu cyfleoedd / mentrau lleol. | Aros i glywed ymhellach pa gefnogaeth mae'r Ymddiriedolaeth ei angen / pe byddai angen. | |
| **Cyfle Lleol** | **Cymdeithas Hwylio a Chymdeithasol Aberdaron** **rgdorkins@btinternet.com** | **Uwchraddio offer a datblygu cyfleoedd hyfforddiant er mwyn gwella'r ddarpariaeth hwylio** | Ceisiadau llwyddiannus wedi'i gyflwyno i AHNE a Cist Gymunedol Chwaraeon am offer a hyfforddiant. | | |
| **Cyfle Lleol** | **Canolfan Felin Fach** **christinefelinfach@gmail.com** | **Prosiect ar gyfer datblygu uned ysbaid "Eco therapy"** | Cyfeirio at grantiau posib ar gyfer datblygu'r prosiect a chefnogi cyfleoedd hyfforddiant i'w defnyddwyr gwasanaeth | | |
| **Cyfle Lleol** | **Cae chwarae Bryn Mynach** **gwynus@gmail.com** | **Cae chwarae aml ddefnydd** | Cefnogaeth gyda chyflwyno cais ariannol i CBC a CDG. Ceisiadau wedi bod yn llwyddiannus. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfle Lleol** | **Canolfan Bryncroes** **glyn15656roberts@aol.co.uk** | **Uwchraddio ffenestri a drysau** | Cyfeirio at gyflwyno cais ariannol i CBC. | Cefnogi'r grŵp gyda'r cais. | |
| **Cyfle Lleol** | **Canolfan Tudweiliog** **post@ecoamgueddfa.org** | **Cynllun Adnewyddu** | Cefnogaeth trwy gamau cynnar y prosiect i gael cynlluniau pensaernïol. | Ymholiadau ar ran y grŵp a chyflwyno opsiynau hefo'r prosiect adnewyddu. | |
| **Cyfle Lleol** | **Parc sglefrio Pwllheli** **janepicken50@hotmail.com** | **Sefydlu cyfleuster sglefr-fyrddio ar stad Morfa Garreg** | Wedi cefnogi'r grŵp gyda chamau cychwynnol y prosiect | Grŵp mewn deialog gyda'r Cyngor Tref. Cefnogaeth i'r grŵp trwy ffynonellau ariannu ag ymarfer da o gynlluniau eraill. | |
| **Cyfle Lleol** | **Neuadd Rhoshirwaun** **catdon2@btinternet.com** | **Uwchraddio'r to** | Ceisiadau llwyddiannus wedi ei gyflwyno i Cist Gwynedd a Chronfa AHNE. | | |
| **Cyfle Lleol** | **Canolfan Trefor** **GlenysWilliams@gwynedd.gov.uk** | **Uwchraddio tô yr estyniad a'r gegin** | Ceisiadau llwyddiannus wedi ei gyflwyno i gronfeydd Cist Gwynedd a Chronfa Buddsoddi Cymunedol, Mantell Gwynedd. | | |
| **Cyfle Lleol** | **Canolfan Gymdeithasol Golan** **enidtalafon@fsmail.net** | **Gwella adnoddau mewnol ac allanol** | Wedi cwrdd gyda'r grŵp a'u cyfeirio at gronfeydd ariannu perthnasol. | Cefnogi'r grŵp gyda'r cais / ceisiadau. | |
| **Cyfle Lleol** | **Neuadd Cricieth** **elizabethgeorge61@hotmail.com** | **Prosiect celf gyhoeddus 'cerflun pabi' dros dro i ddathlu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.** | Cefnogaeth gyda chais ariannol i HLF. | | |

**Ymateb i Newid**

| Categori o Newid | Enw'r Mudiad / Gwasanaeth (a chyfeiriad e bost) | Teitl y prosiect | Wedi Gwneud | I'w Wneud | Mesuryddion Perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adrannol** | **Partneriaeth wedi cael ei sefydlu** | **Datblygu Partneriaeth Ganol Tref Porthmadog i ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan a gweithredu a datblygu prosiectau allweddol fydd yn cryfhau a gwella canol y dref.** | Wedi mynychu cyfarfodydd cychwynnol.<br>Y Bartneriaeth trwy Is-grwpiau yn datblygu cynlluniau bychain;<br>• Bagiau Papur Port i hyrwyddo Port a rhannu deunyddiau marchnata.<br>• Diwrnod Hwyl i'r teulu 19.09 a chydweithio hefo Ras y Cob ar yr 20fed.<br>• Noson arddangos bwyd a diod leol<br>• Fideo hyrwyddo Port. | Uned Prosiectau Strategol yn cefnogi. | |
| **Adrannol** | **Academi Hwylio Genedlaethol a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli** | **Cronfa Gymunedol wedi'i sefydlu gan brif gontractwr yr Academi Hwylio** | Hyrwyddo'r gronfa yn lleol a chefnogi grwpiau gyda cheisiadau | | |
| **Cyngor Gwynedd**<br><br>***Cefnogaeth gan Iestyn Pritchard (Swyddog Adfywio Trefnidiaeth Ysgolion)** | **Trefniadaeth Ysgolion**<br>**Ysgol Rhoshirwaun**<br>**Iwan Hughes**<br>**Clerc Cyngor Cymuned Aberdaron**<br>**iwan.hughes2@btinternet.com**<br>**07899954031** | **Ôl ddefnydd safle Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun.** | Trafodaethau yn cymryd lle gyda Chymdeithas Tai parthed y posibilrwydd o ddefnyddio'r safle ar gyfer tai fforddiadwy. | Aros am benderfyniad terfynol gan yr Adran Eiddo. | |
| **Allanol** | **I'w gadarnhau -Ymholiad cynnar**<br>Aelod Lleol yn bwynt cyswllt gyda Rheolwraig y Feddygfa. | **Datblygu cynllun a all sicrhau parhad y feddygfa ynghyd a hwb iechyd i gwrdd ag anghenion y gymuned** | Ymholiadau cychwynnol wedi eu gwneud gyda CFP. | Cefnogi grŵp os bydd yn datblygu | |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **PWYLLGOR ARDAL DWYFOR** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **21 Medi 2015** |
| **TEITL** | **Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carafanau** |
| **AWDUR** | **Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio (Interim)** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. Dafydd Meurig** |
| | |
| **PWRPAS** | **I ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y gwaith o fonitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau.** |

## 1. Cefndir

1.1 Ar yr 2 Rhagfyr 2014, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gosod allan gwybodaeth i aelodau sut yr ymgymerir â'r gwaith o fonitro safleoedd carafanau o safbwynt y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yn bennaf.

1.2 Mae'r cwestiwn o sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio'n monitro safleoedd carafanau wedi cael gryn dipyn o sylw dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, yn bennaf oherwydd ceisiadau cynllunio ar gyfer ymestyn y tymor gwyliau ar safleoedd carafanau sefydlog o 10 mis a hanner i 12 mis. Rhaid pwysleisio mae ceisiadau ar gyfer ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer defnydd gwyliau'n unig oedd y ceisiadau yma, sef yn y bôn ceisiadau am 6 wythnos y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer defnydd gwyliau. Roedd unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer y ceisiadau yma yn cynnwys amodau cynllunio oedd yn cyfyngu defnydd y carafanau i ddefnydd gwyliau'n unig, a'r angen i weithredwr / perchennog y safle gadw cofrestr o ddefnyddwyr y carafanau.

1.3 Er yr uchod, y pryder gan Aelodau oedd bod caniatáu'r ceisiadau yma yn mynd i arwain at bobl yn byw yn barhaol mewn carafanau, fydd o ganlyniad yn cael effaith negyddol ar gymunedau. Er bod amodau cynllunio'n rheoli defnydd y carafanau, roedd pryder ynglŷn â sut oedd y Gwasanaeth am fonitro a sicrhau bod yr amodau cynllunio'n cael eu gorfodi, pan fod angen gwneud hynny.

1.4 Yn sgil cyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau ymddengys bod y prif faterion a godwyd gan Aelodau yn cadarnhau'r pryderon sydd eisoes wedi ei grybwyll. Mae'r rhain yn cynnwys pryderon ynglŷn â sut oedd y Gwasanaeth, gan ystyried yr adnoddau prin o ran staff, yn sicrhau bod safleoedd yn cydymffurfio gyda'r caniatâd cynllunio a'r amodau perthnasol. Ymholwyd hefyd ynglŷn â sut yr oedd y Gwasanaeth yn gorfodi mewn achosion perthnasol, a codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gwaith monitro safleoedd carafanau sydd yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd.

## 2. Monitro a Gorfodaeth ar Safleoedd Carafanau

2.1 Gydag oddeutu 400 o safleoedd carafanau yng Ngwynedd yn cynnwys ardal y Parc, sydd gyda dros 14,000 (tua 11,000 yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd) o

garafanau sefydlog a dros 5,000 o garafanau teithiol, rhaid cydnabod bod monitro a gorfodaeth ar safleoedd carafanau'n dasg enfawr.

2.2 Mae'r Aelodau'n hollol iawn i godi pryderon ynglŷn â'r diffyg adnoddau staff sydd o fewn y Gwasanaeth Cynllunio i fonitro pob un safle carafanau yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd. Y gwirionedd yw nad oes erioed adnoddau digonol wedi bodoli ar gyfer gwneud y dasg hon, gan gofio hefyd mae un elfen yn unig o waith yr Uned Gorfodaeth yw materion gorfodaeth sydd yn gysylltiedig â safleoedd carafanau.

2.3 Gan ystyried yr uchod mae'n rhaid cydnabod bod yna ddau fath o waith gorfodaeth sydd yn cynnwys gwaith gorfodaeth adweithiol a gwaith gorfodaeth rhagweithiol.

2.4 Mae gan y Gwasanaeth ddyletswydd i archwilio cwynion a dderbynnir sydd yn honni bod yna achos o dorri rheolau cynllunio. Felly, mewn achosion yn ymwneud a safleoedd carafanau, bydd y Gwasanaeth yn archwilio cwynion yn unol â'r trefniadau safonol a gofynion Polisi Gorfodaeth Cynllunio'r Cyngor. Os oes gan Aelodau neu'r cyhoedd bryderon am safle penodol, dylid cysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio.

2.5 O safbwynt gwaith gorfodaeth cynllunio rhagweithiol, nid oes unrhyw ddyletswydd ar y Gwasanaeth i ymgymryd â'r math yma o waith. Er hyn, ystyrir bod gwaith o'r fath yn ymarfer da ac felly fel Gwasanaeth, rydym dros y blynyddoedd wedi bod yn ymgymryd â gwaith monitro rhagweithiol. Mae manteision gyda gwaith rhagweithiol o gymharu gyda gwaith adweithiol gan ei fod yn cyfrannu at wireddu blaenoriaethau'r Cyngor ac yn hwyluso trefniadau gwaith yn gyffredinol. O safbwynt safleoedd carafanau, gall monitro rhagweithiol sefydlu perthynas waith cadarnhaol gyda pherchnogion / gweithredwyr safle, fydd yn ymwybodol fod monitro yn digwydd yn rheolaidd ac felly'n deall yr angen i gydymffurfio gyda rheolau cynllunio.

2.6 Ers cychwyn 2014 mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Gorfodaeth sydd wedi sefydlu fframwaith ar gyfer gwaith rhagweithiol ac adweithiol Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth. Drwy hyn, mae gennym nawr fframwaith ffurfiol ar gyfer gweithredu'r gwaith rhagweithiol, gydag un o'r tasgau sydd wedi ei adnabod yn cynnwys cynnal gwaith monitro ar 20 o safleoedd carafanau yn flynyddol.

2.7 Yn sgil y pryderon gwreiddiol gan Aelodau a gadarnhawyd yng nghyfarfod paratoi ar gyfer y Pwyllgor Craffu Cymunedau ddechrau Rhagfyr 2014, bu i'r gwaith monitro safleoedd carafanau ar gyfer gaeaf 2014 ganolbwyntio'n bennaf ar fonitro safleoedd carafanau sydd wedi cael caniatâd cynllunio i weithredu tymor gwyliau o 12 mis.

2.8 Rhaid pwysleisio mai amcan y gwaith monitro yw monitro cydymffurfiaeth gyda'r caniatâd cynllunio a'r holl amodau cynllunio perthnasol. Felly, nid yw'r gwaith yma wedi ei gyfyngu'n unig i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r amod sydd yn cyfyngu defnydd y carafanau i ddefnydd gwyliau a'r angen i gadw cofrestr.

2.9 Rhaid pwysleisio mae pwerau i'w defnyddio gyda disgresiwn yw pwerau gorfodaeth cynllunio'r Cyngor. Yn y lle cyntaf cyn ystyried unrhyw fath o gamau gorfodaeth ffurfiol, mae'n rhaid cael tystiolaeth gadarn fod yna dorri rheolaeth cynllunio wedi digwydd. Mae yna ddiffiniad cyfreithiol o beth yw carafán ac mae yna hefyd hawliau i ddefnyddio tir fel maes carafanau, neu i osod carafán, heb fod angen cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio. Ar adegau, mae hawliau o'r fath a'r ffaith mae defnydd o dir sydd gennym, yn gallu ei gwneud hi'n anodd cael tystiolaeth gadarn i brofi bod yna

dorri rheolaeth neu beidio. Mewn achosion o'r fath gall hyn olygu'r angen i ail ymweld â safleoedd a'r defnydd o rybuddion ffurfiol er mwyn casglu tystiolaeth.

2.10 Os oes tystiolaeth o dorri rheolaeth cynllunio, mae'r penderfyniad i gymryd camau gorfodaeth neu beidio yn cael ei wneud yng nghyd-destun gofynion Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Polisi Gorfodaeth Cynllunio Gwynedd a Pholisïau a Chanllawiau Cynllunio cenedlaethol, er ystyried os yw cymryd camau gorfodaeth er budd y cyhoedd.

2.11 Yn hanesyddol rhaid nodi bod achosion gorfodaeth sydd yn ymwneud a rhywun yn byw mewn carafán, wedi bod mewn perthynas â charafanau unigol yn cael eu gosod ar dir, yn hytrach na charafanau sydd o fewn safleoedd carafanau.

**3. Y gwaith monitro rhagweithiol 2014/15**

3.1 Hyd at 31 Awst 2015, mae 15 safle wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd gwyliau 12 mis. Yn ychwanegol i hyn, mae ceisiadau cynllunio dan ystyriaeth ar hyn o bryd i ymestyn y cyfnod gwyliau ar 2 safle carafanau sefydlog arall. Mae 4 o'r safleoedd gyda caniatâd cynllunio wedi eu lleoli o fewn ardal Arfon, â'r gweddill o fewn ardal Dwyfor. Mae rhan fwyaf o'r safleoedd wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd gwyliau 12 mis o fewn y ddwy flynedd diwethaf. Er bod 15 safle wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd 12 mis, dim ond 5 safle sydd wedi gweithredu'r caniatâd hwnnw hyd yn hyn.

3.2 Roedd y rhesymau a roddwyd gan weithredwyr rhai'r o'r safleoedd am beidio gweithredu'r defnydd gwyliau 12 mis yn cynnwys:-

*(1) Bod mwyafrif o'r safleoedd angen cau am gyfnod dros y Gaeaf er galluogi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw;*

*(2) Nad oedd perchnogion y safleoedd carafanau mawr yn bwriadu gweithredu'r caniatâd cynllunio ar hyn o bryd, ond bod opsiwn yn bodoli iddynt wneud hynny yn y dyfodol os dymunir.*

3.3 O safbwynt y safleoedd sydd eisoes yn gweithredu'r caniatáu 12 mis, credir bod tystiolaeth dderbyniol yn bodoli ar y cyfan i ddangos eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion yr amodau cynllunio. Bwriedir ymweld â'r safleoedd yma eto yn ystod Ionawr / Chwefror 2016 sef y cyfnod 6 wythnos y buasent wedi bod ar gau cyn derbyn caniatâd am dymor 12 mis.

3.4 Yn ddarostyngedig i argaeledd adnoddau staff priodol, y bwriad yw parhau i flaenoriaethu'r safleoedd hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf oherwydd manteision ehangach y gwaith rhagweithiol yma. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio y bydd parhau'r gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol yn gwbl ddibynnol ar adnoddau staff digonol.

**4. Sefydlu gwaelodlin**

4.1 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ac mae trafodaethau hefyd wedi bod gyda Swyddogion Cynllunio'r Parc. Mae'r trafodaethau yn bennaf wedi bod ynglŷn â

gwaith o sefydlu gwaelodlin ar gyfer adnabod y sefyllfa gynllunio a thrwyddedu cyfredol ar safleoedd carafanau Gwynedd.

4.2 Mae'r dyletswyddau cynllunio ar gyfer Cyngor Gwynedd wrth gwrs wedi ei rhannu, gyda'r Parc Cenedlaethol gyda'r dyletswyddau cynllunio'n ardal y Parc. O safbwynt dyletswyddau trwyddedu mae Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd gyda'r cyfrifoldeb ar gyfer Gwynedd gyfan.

4.3 Credir fod angen i unrhyw waith o sefydlu gwaelodlin fod yn ymarferol ac yn addas i'r pwrpas gan ystyried yr adnoddau staff prin sydd gennym ar gyfer cyflawni'r gwaith yma. Gan ystyried hyn, y bwriad yw y bydd y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd yn gwneud gwaith "desk-top" er mwyn dod a'r holl wybodaeth o ran safleoedd carafanau yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd at ei gilydd, er mwyn hwyluso'r broses o ymateb i gwynion gorfodaeth a gwaith monitro rhagweithiol. Mae'r Parc eisoes yn gwneud gwaith tebyg ar y safleoedd yn y Parc yn dilyn trafodaethau diweddar. Bydd hyn wedyn yn waelodlin nid yn unig ar gyfer cynllunio ond hefyd ar gyfer trwyddedu, gan y bydd yn hwyluso'r broses o wirio trwyddedau yn erbyn y caniatâd cynllunio perthnasol. Yn y pen draw, ystyrir y bydd y gwaith o sefydlu'r waelodlin yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gynllunio a blaenoriaethu'r gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol. Ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Gwynedd, bwriedir gwneud y gwaith yma o safbwynt cynllunio o fewn 12 mis, yn ddibynnol ar adnoddau staff.

## 5. Gwaith pellach

5.1 Mae'n fwriad gan y Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sefydlu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer delio gyda materion ar safleoedd carafanau gan weithredu ar y cyd pan yn briodol.

5.2 Ymhellach i hyn mae'r Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd hefyd wedi bod mewn trafodaethau gydag Adran Gyllid y Cyngor o safbwynt gwybodaeth am garafanau sydd wedi ei trethu fel llety byw parhaol. Bwriad y Gwasanaeth fydd archwilio'r wybodaeth yma dros y misoedd nesaf er mwyn gweld os oes yna achosion o dorri rheolaeth cynllunio. Rhaid cofio bod achosion lle mae caniatâd i reolwr / warden fyw mewn carafán ar safle yn ogystal ag achosion lle mae yna dystysgrif defnydd cyfreithiol ar gyfer defnydd preswyl. Felly, nid yw'r ffaith fod carafán wedi ei drethu ar gyfer defnydd preswyl yn angenrheidiol yn golygu fod yna achos o dorri rheolau cynllunio.

## 6. Casgliadau

6.1 Gyda'r gwaith gorfodaeth adweithiol, y gwaith monitro rhagweithiol sydd yn cynnwys monitro safleoedd gyda thymor gwyliau 12 mis, y gwaith sefydlu gwaelodlin a'r gwaith pellach, credir bod hyn yn briodol a chymesur i'r hyn sydd yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith yn y maes penodol yma. Rhaid cadw mewn cof hefyd y toriadau sydd ar y gweill ac felly mae posibilrwydd na fydd modd gwarantu cynnal y gwaith monitro rhagweithiol i'r dyfodol.